

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod:09.01.2018
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cyngorwyr ; Danny Davies, Gethin Edwards, Eirion Evans, Elfed Davies, Derick Lock.
Ymddiheuriadau: Pamela Jones, Arwel Nicholas, Dylan Jones

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Dewis Cadeirydd	Oherwydd profedigaeth Pamela Jones a salwch yr Is -Gadeirydd Dylan Jones, penderfynnwyd y dylai DD gadeirio'r Cyfarfod.	
	DD yn estyn cydymdeimlad ar rhan y Cyngor I Deulu Fronheulog; Clerc yn dweud iddo ymweld a'r Teulu ac iddo adael blodau a cherdyn iddynt.	
Datgan Buddiannau	DL - dewis Ymddiriedolwyr I'r Neuadd	
Cofnodion	Cafwyd yn gywir – ED & EE	
Materion yn Codi	<p>John Pearce – Clerc yn adrodd ei fod wedi gofyn I John Pearce am wybodaeth ynglyn a'r cloddiau sydd yn gor dyfu ond iddo dderbyn dim ateb.</p> <p>John McEvoy - Clerc yn adrodd ei fod wedi gofyn I John McEvoy am wybodaeth ynglyn a'r Cynllun Gwella Trafnidiaeth ond iddo dderbyn dim ateb.</p> <p>Fferm Wynt Brechfa – Clerc yn adrodd am gyfarfod ym Mhencader iddo ef a PJ fynychu nôl ym Mis Tachwedd. Gofynnwyd iddynt wneud awgrymiadau ar beth fyddai'r gymuned yn gwario arian pe bai yna arian ar gael I Llanpumsaint. IJ yn dweud fod ganddo fap sydd yn dangos pa gymunedau sydd wedi eu clustnodi ar gyfer derbyn taliadau. DD yn rhestru rhai o'r syniadau a godwyd gan PJ tra yn y cyfarfod. ED yn cyfeirio at gymunedau megis Pencader, Gwyddgrug a Llanllwni, a'r gwaith a wnaethpwyd ynddynt ar ôl derbyn arian o'r melinoedd.gwynt cyntaf. Anodd datblygu syniadau hyd at bod cadarnhad fod arian ar gael a beth fydd y swm. Pan daw gwybodaeth ychwanegol, angen trefnu cyfarfod cyhoeddus a galw pwyllgor.</p> <p>Clerc yn adrodd fod y clawdd a oedd yn gordyfu dros y palmant wedi ei docio nôl.</p> <p>IJ yn son am halen a graean a DD yn dweud fod angen mwy ym mlwch Maenllwyd.</p>	
Gohebiaeth	<p>Ymddiriedolwyr I'r Neuadd – GE & EE yn cymeradwyo'r ddau; Shirley Davies a Keith Tozer.</p> <p>Garddwest Palas Buckingham – Y Cyngorwyr o blaid enwebu Pamela Jones I gael cyfle I fynychu.</p> <p>Ad-drefnu Cyngorau – Gwahoddiad oddi wrth Cyngor Tref Caerfyrddin I rhannu gwybodaeth a syniadau er mwyn ceisio</p>	

	<p>hwyluso'r gwaith a'r gwasanaethau; Clerc I gyfarfod gyda Clerc Cyngor Tref Caerfyrddin.</p> <p>Holiadur am bwrpas Cynghorau – ED yn amau byddai'r Panel yn gwrandao! Prif rhwystredigaethau cyngorau bach yw Priffyrdd, cael aelodau o'r gymuned I fod yn Gynghorwyr a llwybrau diogel.</p> <p>CAVS – cynnig oddi wrth y Corff I anerch y Cyngor; y Cynghorwyr o blaid estyn gwahoddiad. EE & GE</p>	
Cynllunio	<p>Llwynglas – dim gwrthwynebiad</p> <p>Bryn – dim gwrthwynebiad</p> <p>Skanda Vale – dim gwrthwynebiad. (Clerc yn esbonio mae creu un maes parcio mawr oedd y bwriad er mwyn cadw rheolaeth mwy caeth ar drafndiaeth)</p>	
Materion Ariannol	<p>Trywydd (taliad Mehefin a oedd yn ddyledus) £54 – GE & EE</p> <p>Cyflog y Clerc, £130.60 – EE & GE</p> <p>Rhoddwyd esboniad ar Adran 137</p> <p>Trafodwyd gosod y Praesept ac awgrymodd ED benodi rhyw brosiect fyddai angen mwy o wariant na'r cyffredin er mwyn dangos ble fyddai'r arian yn mynd. Am 2018 cytunwyd ei gadw at yr arfer sef, £22.00. ED & GE a phawb yn gytun.</p>	
UFA	<p>DL – a fydd cyfraniad y Cyngor I'r Neuadd a'r Cae Chwarae yn amrywio; un eleni a'r llall y flwyddyn ganlynol?. Penderfynwyd byddai un taliad yn cael ei wneud yn Chwefror a'r llall yn Nhachwedd.</p> <p>ED – twll yn yr heol rhwng Penhill a Clover Hill</p> <p>EE – Dim</p> <p>IJ – Dim</p> <p>GE – yn cyfeiro at y graean tu faes I ddrws y Neuadd. DL yn dweud fod gwelliannau ar y gweill.</p> <p>DD – angen halen a graean ym mlwch Maenllwyd.</p>	
Cyfarfod yn gorffen	9.16	

<p>Cafwyd yn gywir :</p> <p>(Cadeirydd)</p>	<p>Cafwyd yn gywir :</p> <p>(Ysgrifennydd)</p>
<p>Dyddiad :</p>	<p>Dyddiad:</p>